# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**2 Ionawr 2019, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** Cyng D I Roberts, A W Mummery, E Williams, O Evans, S Hughes, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:** Cyng R Davies, N Jones, D Gwyn | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Cyng O Evans - Cais cynllunio 41C146 Tyddyn y Felin |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 07.11.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir gyda un cywiriad eitem 4.5 - nid oedd y Cyngor sir yn cynnig torri'r gwrychoedd |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Datblygu'r maes chwarae** - Mae Playquest yn cynnig yr un pris gyda £125 ychwanegol am skip i cael gwared â'r pridd. Bydd y Clerc yn cysylttu a Cyng N Jones a D Gwyn i ofyn a ellir defnyddio'r pridd ar gyfer lefelu |
| **4.2** | **Ymateb Cyngor Ynys Mon (I llythyr yr Heddlu)** - Cytunwyd i anfon eu hymateb i Lywodraeth Cymru am eu sylwadau |
| **4.3** | **Lon Bryn Ffynnon -** Nid yw Cyng Mummery wedi clywed gan Dafydd Rowlands, Adran Tai |
| **4.4** | **Gor-yrru a materion Penmynydd** - disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir |
| **4.5** | **Calonnau Cymru (defibrillator)** - Oherwydd y costau, cytunwyd i beidio symud ymlaen ar hyn o bryd ac ail ystyried yn y dyfodol |
| | |
| **5** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN** |
| | **Cynllunio** |
| **5.1** | 41C146 - Tyddyn y Felin, Star - ni thrafodwyd y cais hwn gan fod penderfyniad wedi'i wneud eisoes. |
| **5.2** | 41C137A/DA Afallon, Penmynydd. Mae'r cais wedi'i "galw mewn" gan y Cyngor Sir am cyfarfod ar y safle |
| **5.3** | ELE/2018/3 Bryn eryr Uchaf, Pentraeth - dim sylwadau |
| **5.4** | Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol - gwybodaeth yn unig |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **6.1** | BDO Archwiliad 2017/18. Derbyniwyd adroddiad yr archwilydd allanol. Mae'r ochr ariannol yn iawn ond nodwyd materion: Cynnwys y wefan - nid yw y gwybodaeth sydd angen ddim ar gael. Hysbysiad ar gyfer ymarfer hawliau etholwyr (dim tystiolaeth ffotograffig). Methodd y Cyngor â chymeradwyo adran 1 y ffurflen erbyn 30.06.18. Datganiad Llywodraethiant Blynyddol - un cwestiwn heb ei ateb ar y ffurflen. Y Broses Gyllidebau - dim proses gyllidebu. Pwerau gwariant A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir. Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol - dim cyfeirnod munud. Nid yw'r cyngor yn cytuno â'r holl bwyntiau - bydd y clerc yn cysylltu â BDO |
| | **Llofnod** **Cadeirydd** **06.02.19** |

| | |
|---|---|
| | |
| **7** | **MATERION ARIANNOL** |
| **7.1** | Praesept 2019/20. Gweler Budget wedi'i paratoi gan y swyddog cyllid - cytunwyd i codi'r praesept i £6750. |
| **7.2** | Cytunwyd i dalu R Williams £400 - torri gwair |
| **7.3** | Adolygu cyflog y Clerc (gadawodd y Clerc yr ystafell). Cytunwyd i codi cyflog y Clerc i £2500 o Ebrill 2019 |
| **7.4** | Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol |
| | |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | GDPR - Dywedodd y Clerc mae'r wefan bellach yn cydymffurfio |
| **8.2** | Bydd y Clerc y trefnu cael prisiau ar gyfer contract 2019/20 |
| | |
| **9** | **EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** |
| | Y wefan |
| | **Llofnod** **Cadeirydd** **06.02.19** |